**LGH-14-00 (min)**

## Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 29 Tachwedd 2000 |
| **Amser:** | 9.30am tan 12.15pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

*Aelodau:*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Castell-nedd |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gyr |
| Peter Black (Dirprwy Weinidog) | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Brian Hancock | Islwyn (eitemau 3 i 5) |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

*Yn bresennol:*

| | |
|---|---|
| John Bader | Yr Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau (Eitemau 1 i 5) |
| Chris Hobday | Yr Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau (eitem 4) |
| Peter Harding | Yr Is-adran Adnewyddu Tai a Chymunedau (eitem 5) |
| Kate Cassidy | Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol (eitemau 6 i 8) |
| Mary Fraser | Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol (eitem 6) |
| Frank Cuthbert | Yr Is-adran Moderneiddio Llywodraeth Leol (eitem 7) |
| Yr Athro Eric Sunderland | Cadeirydd, Y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol (eitem 8) |
| Lloyd FitzHugh | Dirprwy Gadeirydd, Y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol (eitem 8) |
| Susan Smith | Aelod, Y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol (eitem 8) |
| Helen Lentle | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| *Ysgrifenyddiaeth:* | |
| Martin Stevenson | Clerc y Pwyllgor |
| Phil Mulraney | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau agoriadol**

0.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i’r cyfarfod. Yn dilyn marwolaeth drist gr Janet Davies, dymunai’r Pwyllgor estyn ei gydymdeimlad dwysaf â Janet yn ei cholled. Dywedodd y Cadeirydd y byddai’n ysgrifennu at Janet i gyfleu ei chydymdeimlad â hi ar ran y Pwyllgor.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau ac eilyddion**

1.1 Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb. Yr oedd Brain Hancock yn eilydd dros Janet Davies.

**Eitem 2: Datgan buddiannau**

2.1 Gwnaethpwyd y datganiadau canlynol:

- Dywedodd Peter Black ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd William Graham ei fod yn Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd;
- Dywedodd Dai Lloyd ei fod yn Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe;
- Dywedodd Janet Ryder ei bod yn Aelod o Gyngor Tref Rhuthun.

**Eitem 3: Adroddiad gan y Gweinidog: LGH-14-00 (p.1)**

3.1 Cyflwynodd Edwina Hart ei hadroddiad i'r Pwyllgor. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Nododd y Pwyllgor y byddai'r Comisiwn Digartrefedd yn cael ei gadeirio gan Peter Black a'i fod i gwblhau ei waith erbyn dechrau haf 2001. Dywedodd Edwina Hart fod gwaith yn mynd rhagddo ar y cynnig a basiwyd mewn cyfarfod llawn yn ehangu'r diffiniad o ddigartrefedd, ond yr oedd yn awyddus i'r Comisiwn fwrw golwg ehangach ar y mater hwn. Bwriadai'r Gweinidog benodi ymarferwyr tai i'r Comisiwn, ac ymrwymodd i hysbysu'r Pwyllgor cyn gynted ag y byddid wedi cytuno ar yr aelodaeth.
- Teimlai'r Pwyllgor y dylai'r gwahaniaeth rhwng y dreth a godir gan yr heddlu a thaliadau treth gyngor yr awdurdod lleol ei hun gael ei wneud yn glir i drethdalwyr lleol. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n codi'r mater hwn gyda'r Prif Gwnstabliaid. Fe'i gwnaeth yn glir hefyd y byddai'n annerbyniol pe bai lefel y dreth a godir gan awdurdod heddlu yn arwain at godiadau treth gyngor o 10 y cant neu fwy drwyddynt draw yn 2001-02.
- Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi penderfynu ehangu cwmpas yr astudiaeth i lwfansau cynghorwyr sydd wedi'i chynllunio, er mwyn ystyried y rhwystrau sy'n atal pobl rhag dod yn gynghorwyr a sut y gellid goresgyn y rhwystrau hynny. Byddai'r adroddiad hefyd yn ystyried ym mha ffyrdd y gellid annog croestoriad mwy amrywiol o'r boblogaeth i ddod yn gynghorwyr. Croesawai'r Pwyllgor y cynnig hwn a gwnaeth nifer o awgrymiadau yngln â materion y dylid ymdrin â hwy yn yr adolygiad, gan gynnwys rhyddhau pobl o waith amser llawn a materion yn ymwneud â hawl gofalwyr a phobl anabl i fudd-daliadau. Dywedodd y Gweinidog y câi'r cylch gwaith drafft ar gyfer yr astudiaeth ei anfon at grwpiau'r pleidiau yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd, ac y câi'r Pwyllgor yr wybodaeth yn y cyfarfod ar 24 Ionawr.
- Dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwriadu cyhoeddi'r papur ymgynghorol ar ddangosyddion perfformiad gwerth gorau yn fuan. Diolchodd i'r Pwyllgor am gefnogi'n egwyddor o ostwng nifer y dangosyddion.
- Gyda chytundeb y Pwyllgor, dywedodd y Gweinidog y byddai'n dod ag adroddiad ar gynnydd y rhaglen Cynorthwyo Pobl gerbron ar gyfer y cyfarfod ar 13 Rhagfyr.

**Eitem 4: Grant Tai Cymdeithasol: LGH-14-00 (p.2)**

4.1 Cyflwynodd y Gweinidog y papur, a nodai'r cynnydd a wnaethpwyd o ran symleiddio gweinyddiaeth y rhaglen Grant Tai Cymdeithasol. Dywedodd fod y rhaglen yn cynnig buddsoddiad a allai fod oddeutu £96 miliwn yn 2000-01, gyda £56 miliwn o'r arian hwnnw yn cael ei ddarparu drwy gymhorthdal a'r gweddill yn dod o arian preifat a godir gan landlordiaid cymdeithasol

cofrestredig. Yr oedd y gyllideb ddrafft yn cynnal y lefel hon o gymhorthdal dros y tair blynedd nesaf.

4.2 Byddai'r newidiadau i brosesau dyrannu'r cynllun grant yn datganoli'r drefn llunio penderfyniadau ac yn caniatáu i awdurdodau lleol ddatblygu atebion lleol i broblemau lleol. Dywedodd Edwina Hart ei bod yn fodlon a'r drefn seiliedig ar fformwla a gyflwynwyd ar gyfer dosbarthu'r Grant Tai Cymdeithasol, er ei bod yn cydnabod yr angen i feithrin gwell dealltwriaeth o anghenion tai fel y gellid seilio'r fformwla ar y dystiolaeth orau sydd ar gael yn y blynyddoedd i ddod.

4.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r Pwyllgor y cynnydd tuag at symleiddio'r prosesau i ddyrannu'r Grant Tai Cymdeithasol ac i symleiddio'r broses cymeradwyo grantiau.
- Yr oedd pryder nad oedd y ddarpariaeth ar gyfer y Grant Tai Cymdeithasol wedi'i gwario'n llawn dros y blynyddoedd diwethaf, a bod hynny wedi arwain at ostyngiadau yn y gyllideb. Ymrwymodd y Gweinidog i ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru i annog awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i fanteisio'n llawn ar eu dyraniadau grant. Cytunodd hefyd i ddarparu data ariannol hanesyddol i'r Aelodau ar y Grant Tai Cymdeithasol.
- Nodwyd mai'r bwriad yn 2001-02 oedd dyrannu 80 y cant o'r cyllid sydd ar gael drwy fformwla, gyda'r awdurdodau lleol yn gwneud cais am yr 20 y cant arall. Bwriadwyd yr elfen geisiadau i dargedu adnoddau at gynlluniau a hybai adfywio cymunedol. Dywedodd John Bader mai'r gobaith oedd seilio'r fformwla dosbarthu ar anghenion tai maes o law, a bod y Cynulliad Cenedlaethol yn darparu cymorth i awdurdodau lleol ar hyn o bryd er mwyn cael gwybodaeth gyson ar y lefel leol.
- Dywedodd y Gweinidog ei bod yn gobeithio hysbysu Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru cyn y Nadolig o'i phenderfyniadau ar feincnodi lefelau rhent ac ar gyfradd y Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer 2001-02.
- Dywedodd Edwina Hart ei bod yn ystyried ffyrdd o wneud y cynllun Homebuy yn fwy hyblyg er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i bobl ar incwm isel brynu eu cartrefi eu hunain. Teimlai fod hynny yn neilltuol o bwysig yng nghyd-destun helpu i ddiwallu anghenion tai mewn ardaloedd gwledig. Yr oedd hefyd yn ystyried ystod o faterion eraill a oedd yn berthnasol i dai yng nghefn gwlad. Awgrymwyd ei bod yn bwysig bod y gwaith hwn yn bwydo i mewn i adolygiad polisi'r Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar arallgyfeirio yng nghefn gwlad, gan wneud hynny o bosibl drwy gyfarfod ar y cyd rhwng y ddau Bwyllgor.

4.4 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor ar y rhaglen Grant Tai Cymdeithasol i ystyriaeth.

**Eitem 5: Y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy: LGH-14-00 (p.3)**

5.1 Dywedodd Edwina Hart fod y papur yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am flwyddyn waith gyntaf y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy, a anelai at ymdrin mewn dull hyblyg â chynaliadwyedd

cymunedau. Yr oedd £250,000 o gyllid ar gael ar gyfer 1999-2000, ac yn erbyn hynny derbyniwyd 42 o enwebiadau a oedd yn werth oddeutu £1.1 miliwn. Cyllidwyd 15 prosiect, a oedd yn cynnwys darparu cyfleusterau gofal plant, grwpiau mam a'i phlentyn a chanolfan byw'n iach.

5.2 Cynyddwyd y cyllid a oedd yn cael ei ddarparu ar gyfer y cynllun yn 2000-01 i £600,000, ynghyd ag ychwanegiad unwaith yn unig o £400,000 drwy hyblygrwydd diwedd blwyddyn. Derbyniwyd rhyw 180 o enwebiadau a gobeithiai'r Gweinidog gyhoeddi'r rhaglen ar gyfer yr ail gylch yn y dyfodol agos.

5.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Cymeradwyodd y Pwyllgor y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy. Teimlai ei bod yn rhoi cymorth cost-effeithiol i gynlluniau o ansawdd uchel a oedd â'r potensial i gael effaith wirioneddol ar y cymunedau dan sylw.
- Pryderai'r Aelodau yngln â nifer y ffrydiau cyllido gwahanol ar gyfer prosiectau adfywio cymunedol, yr ymdrech sy'n ofynnol i lenwi'r ffurflenni cais a'r cyfnod o amser a ai heibio cyn y ceid penderfyniad ar gais. Cefnogent gynlluniau'r Gweinidog i uno cyllideb y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy gyda chyllideb y rhaglen Pobl mewn Cymunedau a Rhoi Cymunedau'n Gyntaf.
- Cafwyd rhywfaint o drafodaeth yngln â pha mor bwysig yw hi fod y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol i noddi cynlluniau adfywio cymunedol, a pha un y dylid annog awdurdodau lleol i neilltuo rhan o'u cyllidebau ar gyfer grwpiau cymunedol. Teimlai'r Gweinidog ei bod yn bwysig cael yr awdurdodau lleol i gymryd cymaint â phosibl o ran, ond na ddylai cymunedau fod yn gwbl ddibynnol ar gefnogaeth eu cyngor lleol cyn y gallent gyrchu at gyllid. Yr oedd hyn yn cyd-fynd â'r patrwm gweithredu 'o'r gwaelod i fyny' sy'n ofynnol er mwyn rhoi sylw i wir anghenion cymunedau difreintiedig.
- Awgrymodd un Aelod y byddai creu Parthau Gweithredu Iechyd Cymunedol yn gymorth i gyd-drefnu'r polisïau amrywiol sy'n anelu at greu cymunedau cynaliadwy ar y lefel leol.
- Awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor gynnal adolygiad polisi o rôl grwpiau cymunedol yn y gwaith o adfywio cymunedau, gyda'r nod o sefydlu'r arferion gorau yn y maes hwn. Teimlid y gallai'r pwyllgorau rhanbarth gyfrannu tuag at yr adolygiad hwn drwy fwydo profiad i mewn o'u rhanbarthau. Awgrymodd y Cadeirydd y dylai'r mater hwn gael ei ystyried yng nghyd-destun blaen-raglen waith strategol y Pwyllgor yn y cyfarfod ar 24 Ionawr.

5.4 Nododd y Pwyllgor y papur ar y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy. Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth dywys y rhaglen yn ei blaen.

**Eitem 6: Strategaethau cymunedol: LGH-14-00 (p.4)**

6.1 Wrth gyflwyno'r papur, dywedodd y Gweinidog y byddai i strategaethau cymunedol rôl eithriadol o bwysig o ran cyflwyno un strategaeth glir ar gyfer ardal awdurdod lleol yn ei chyfanrwydd. Byddent yn nodi'r amcanion a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt gyda chymunedau lleol a'r holl chwaraewyr allweddol, gan gyflwyno anghenion a blaenoriaethau'r ardal yn eu holl agweddau. Byddai gan awdurdodau lleol rôl arwain allweddol i'w chwarae er mwyn

gwneud i hyn ddigwydd.

6.2 Byddai i'r cyfarwyddyd ar strategaethau cymunedol awdurdod statudol a byddai'n rhaid ystyried yn ofalus er mwyn taro'r cydbwysedd iawn rhwng bod yn rhy amwys a bod yn rhy benodol. Gyda dyfodiad y strategaethau cymunedol ceid cyfle i ostwng nifer y gwahanol gynlluniau a gynhyrchir gan awdurdodau lleol a sicrhau bod yna ddolenni cyswllt clir rhwng y cynlluniau sy'n weddill â'i gilydd. Câi'r cyfarwyddyd drafft ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori yn gynnar ym mis Rhagfyr, a dywedodd y Gweinidog ei bod yn arbennig o awyddus i glywed barn y gymuned fusnes.

6.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Yr oedd y Pwyllgor yn gryf ei gefnogaeth i baratoi strategaethau cymunedol, fel modd o gyd-drefnu'r gwasanaethau a ddarperir ac o ymdrin â materion trawsbynciol mewn modd cydlynus. Teimlid bod i'r gwaith o ddatblygu strategaethau cymunedol, sy'n ymdrin â chynllunio drwy ddechrau gyda'r gymuned a gweithio ar i fyny, y potensial i drawsnewid y ffordd y mae llywodraeth leol yn gweithredu.
- Croesawai'r Aelodau y cynnig i ostwng nifer y gwahanol gynlluniau a gynhyrchir gan awdurdodau lleol. Dywedodd y Gweinidog ei bod ar hyn o bryd yn ymgynghori â'i chydweithwyr yn y Cabinet ynghylch y potensial i resymoli. Yr oedd y broses hon yn golygu rhestru'r cynlluniau allweddol ynghyd â'r meysydd hynny y mae'n well eu gadael i strwythurau democrataidd lleol.
- Yr oedd rhywfaint o bryder yngln â diffyg grym y Cynulliad i ddiddymu rhai cynlluniau statudol. Anogodd yr Aelodau y Gweinidog i barhau i bwyso ar yr Ysgrifennydd Gwladol am bwerau ychwanegol yn y maes hwn.
- Nodwyd bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi sefydlu compact sector gwirfoddol erbyn hyn. Awgrymwyd y gallai'r strategaeth gymunedol weithredu fel fframwaith polisi i'r awdurdod lleol yn ei ymwneud â'r sector gwirfoddol.
- Teimlai'r aelodau mai'r allwedd er mwyn rhoi'r strategaethau cymunedol ar waith yn llwyddiannus oedd datblygu sgiliau a meithrin gallu mewn cymunedau lleol. Nodwyd bod meithrin gallu yn gostus, am fod yn rhaid wrth gymorth dros amser, a hefyd gallai fod yn her i'r strwythurau grym sefydledig.
- Byddai'n bwysig i'r strategaeth gymunedol gynnwys yr holl sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau o fewn ardal. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn arbennig o awyddus i gynnwys awdurdodau iechyd a Chyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.
- Teimlai'r Aelodau y dylai'r ymgynghori ar strategaethau cymunedol ymledu'n eang, yn enwedig i gyrff sy'n cynrychioli'r gymuned fusnes.

6.4 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor ar y cyfarwyddyd drafft ar strategaethau cymunedol i ystyriaeth, gan gynnwys pa gyrff y dylid ymgynghori â hwy.

**Eitem 7: Deddf Llywodraeth Leol 2000: LGH-14-00 (p.5)**

7.1 Wrth gyflwyno'r papur, dywedodd y Gweinidog fod Deddf Llywodraeth Leol 2000 i fod i ddod i

rym yng Nghymru ar 28 Gorffennaf 2001, flwyddyn ar ôl i'r Ddeddf gael Cydsyniad Brenhinol, oni fydd i'r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu ar ddyddiad cynharach. Yr oedd ymarferiad i ymgynghori yngln â'r cyfarwyddyd drafft ar y strwythurau gweithredol wedi ei ymestyn fel y gellid ystyried cynigion newydd a fyddai'n caniatáu i awdurdodau lleol weithredu drwy strwythurau anweithredol, sef yr hyn a elwir y 'pedwerydd opsiwn'. Golygai hyn fabwysiadu strwythur pwyllgorau wedi'i foderneiddio gyda gwell pwerau archwilio yn hytrach na'r system gabinet. Adlewyrchai hyn ymrwymiad yn y Cytundeb Partneriaeth. Pwysleisiodd Edwina Hart mai nid mater o gadw at hen arferion oedd y 'pedwerydd opsiwn', gan y byddai'n rhaid iddo gynnwys pwyllgorau archwilio yn ogystal â threfniadau effeithlon, tryloyw ac atebol ar gyfer llunio penderfyniadau.

7.2 Dywedodd y Gweinidog fod y Cytundeb Partneriaeth hefyd wedi ei gwneud yn glir y byddai'n rhaid i weithrediaethau newydd y cynghorau gwrdd a gwneud penderfyniadau yn gyhoeddus, yn unol â'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Hawl i Weld Gwybodaeth). Yn ogystal, byddai'r Llywodraeth Bartneriaeth yn annog cynghorau i ffurfio a datblygu pwyllgorau ardal, mewn modelau gweithredol ac anweithredol fel ei gilydd, gyda phwerau a chyllidebau dirprwyedig.

7.3 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Croesawai'r rhan fwyaf o Aelodau y ffaith bod strwythur pwyllgorau modern ar gael fel opsiwn ychwanegol i awdurdodau lleol, fel y gallent ddewis pa strwythur oedd yn fwyaf addas i anghenion lleol. Yr oedd yna fodd bynnag deimlad mai prin fyddai'r awdurdodau a gâi eu denu at y 'pedwerydd opsiwn', nad oedd mor wahanol â hynny i fodel y cabinet gweithredol. Yr oedd yna hefyd bryder yngln â thanseilio'r gwaith yr oedd llawer o awdurdodau eisoes wedi'i wneud i symud tuag at ryw fath o fodel gweithredol.
- Awgrymwyd bod y cynigion ar gyfer y 'pedwerydd opsiwn' yn rhy orchmynnol, ac y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol ganiatáu cymaint o ryddid â phosibl i awdurdodau lleol i ddatblygu strwythurau rheoli gwleidyddol a oedd yn briodol i'w hanghenion. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu nodyn a fyddai'n nodi'r cyfyngiadau a bennir gan Adran 32 ('trefniadau amgen') Deddf Llywodraeth Leol 2000.
- O ran prif nodweddion y 'pedwerydd opsiwn' arfaethedig, nododd y Pwyllgor mai'r Cyngor llawn fyddai'n gyfrifol am y fframwaith polisi a chyllidol yn gyffredinol, gyda Bwrdd yn ymgymryd â'r rhan fwyaf o swyddogaethau sy'n weddill. Yn wahanol i gabinet gweithredol, ceid cydbwysedd gwleidyddol ar y Bwrdd, gyda dim rhagor na deg aelod neu 20 y cant o'r cyngor (pa un bynnag fyddai'r mwyaf). Byddai yna hyd at chwe phwyllgor pwnc, a byddai ganddynt rôl ddeuol gan y byddent yn cyfrannu tuag at ddatblygu polisi ac yn archwilio penderfyniadau a wneid gan y Cyngor. Byddai yna hefyd Brif Bwyllgor Archwilio, na châi unrhyw aelod o'r Bwrdd fod yn aelod ohono.
- Yr oedd amrywiaeth barn yngln â'r cynnig y dylai fod yn ofynnol i gynghorau gwrdd yn gyhoeddus. Croesawai rhai Aelodau'r cynnig, tra teimlai eraill y byddai'r gwir benderfyniadau yn parhau i gael eu gwneud yn breifat. Awgrymodd un Aelod fod y Cynulliad Cenedlaethol yn croes-ddweud ei hun wrth orchymyn y dylai gweithrediaethau cynghorau gwrdd yn gyhoeddus pan oedd Cabinet y Cynulliad yn cwrdd yn breifat.
- Yr oedd peth pryder yngln â'r potensial ar gyfer gwrthdaro rhwng y cynnig i annog datblygu pwyllgorau ardal a'r ymrwymiad yn y Cytundeb Partneriaeth i gryfhau rôl cynghorau tref a

chymuned. Nodwyd y byddai'r Cyngor Partneriaeth Llywodraeth Leol a'r Pwyllgor yntau yn ystyried rôl cynghorau tref a chymuned yn fuan.

7.4 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i ystyried barn y Pwyllgor ar y cynigion newydd yn ymdrin â rhoi Deddf Llywodraeth Leol 2000 ar waith. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor yn ystyried strwythurau rheoli gwleidyddol eto yn y cyfarfod ar 28 Chwefror yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymarferiad ymgynghori.

**Eitem 8: Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru – Adroddiad Blynyddol**

8.1 Rhoddodd yr Athro Sunderland olwg gyffredinol ar waith y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn 1999-2000, wedi'i seilio ar Adroddiad Blynyddol y Comisiwn. Dywedodd fod y Comisiwn bron iawn â chwblhau ei raglen yn adolygu'r trefniadau etholiadol yn ardal pob awdurdod unedol, rhaglen a fu ar waith er 1995. Yr unig dasg a oedd yn weddill oedd adolygiad pellach o Fro Morgannwg, yn unol â chyfarwyddyd a dderbyniwyd ym Mawrth 2000.

8.2 Yr oedd y Comisiwn hefyd wedi symud ymlaen â rhaglen o Adolygiadau o Brif Ardaloedd, gan edrych ar nifer o anghysonderau yn y ffiniau. Eglurodd yr Athro Sunderland mai diben yr adolygiadau hyn oedd ei gwneud yn haws cyflwyno gwasanaethau'r awdurdodau lleol yn effeithiol ac effeithlon. Tynnodd sylw at y ffaith bod pleidlais wedi'i chynnal drwy'r post wrth i'r ffin rhwng Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr yng nghyffiniau'r Wig, Ewenni a Saint-y-brid gael ei hadolygu, a hefyd wrth adolygu'r ffin rhwng Bwrdeistrefi Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf yng nghyffiniau Evanstown.

8.3 O ran y flwyddyn ariannol gyfredol, dywedodd yr Athro Sunderland fod gwaith yn mynd rhagddo bellach i adolygu'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam yng nghyffiniau Llangollen. Fodd bynnag, yr oedd Cyngor Sir Ddinbych wedi gwneud cais am adolygiad barnwrol o benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol i roi'r cyfarwyddyd hwn, ac yr oedd yn gwrthod darparu gwybodaeth i'r Comisiwn. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau nad oedd yn briodol trafod cais Cyngor Sir Ddinbych am adolygiad barnwrol tra'r oedd y mater hwn yn dal gerbron y Llys.

8.4 Yn ystod y drafodaeth, teimlai'r Aelodau ei bod yn bwysig i'r Comisiwn ennyn cysylltiad â chymunedau lleol wrth fynd ati i adolygu ffiniau, ac yr oeddynt o blaid cynnal pleidlais drwy'r post. Dywedodd yr Athro Sunderland nad oedd yn ofynnol i'r Comisiwn gynnal pleidlais, ond y byddai yn ystyried hynny fel a phan y byddai'n briodol. Dywedodd hefyd fod y Comisiwn yn derbyn llawer iawn o ohebiaeth, a ddangosai fod pobl mewn cymunedau lleol yn cymryd diddordeb gwirioneddol yng nghanlyniad yr adolygiadau.

8.5 Yr oedd y Gweinidog am gofnodi ei gwerthfawrogiad o waith y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru. Dywedodd nad oedd yn bwriadu defnyddio'r pwerau y disgwylid iddynt gael eu sefydlu o dan y Mesur Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda, sydd ar y gweill ar hyn o bryd, i drosglwyddo pwerau'r Comisiwn i'r Comisiwn Etholiadol arfaethedig. Dywedodd y Gweinidog hefyd ei bod yn gobeithio y byddai'r Adolygiad o Reolaeth Ariannol a Pholisi'r Comisiwn sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd wedi'i gwblhau cyn y Nadolig.

8.6 Diolchodd y Cadeirydd i'r Athro Sunderland a'i gyd Gomisiynwyr am eu cyflwyniad i'r Pwyllgor ac am ymateb i gwestiynau'r Aelodau.

**Eitem 9: Enwebiadau i'r Panel Penodiadau Cyhoeddus**

9.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor ei fod yn fodlon â'r cynnig i enwebu Gwenda Thomas a Janet Ryder i Banel Penodiadau Cyhoeddus y Gweinidog.

**Eitem 10: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd: LGH-12-00 (min)**

10.1 Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd.

10.2 Ar ôl trafodaeth ar effaith y llifogydd diweddar ar adeiladau preswyl a masnachol, ymrwymodd y Gweinidog i ysgrifennu at Janet Ryder, gan anfon copi o'r ohebiaeth at Aelodau eraill y Pwyllgor, yn nodi'r sefyllfa o ran y dreth gyngor a'r trethi busnes lleol ar adeiladau nad oedd yn bosibl byw ynddynt na'u defnyddio.

10.3 Dywedodd y Gweinidog ei bod yn gobeithio gallu rhoi adroddiad i'r cyfarfod nesaf ar y sefyllfa o ran hawliadau o dan gynllun Bellwin. Dywedodd hefyd ei bod yn awyddus i sicrhau bod unrhyw seilwaith a ddifrodwyd yn y llifogydd yn cael ei adfer yn iawn.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Rhagfyr 2000**

**Atodiad 1**

**CRYNODEB PWYNTIAU GWEITHREDU O GYFARFOD 29 TACHWEDD**

1. Ymrwymodd y Gweinidog i roi gwybod i'r Pwyllgor pwy sy'n gwasanaethu ar y Comisiwn Digartrefedd cyn gynted ag y byddid wedi cytuno ar yr aelodaeth (paragraff 3.1).

2. Ymrwymodd y Gweinidog i hysbysu'r Pwyllgor yn y cyfarfod ar 24 Ionawr o gylch gwaith yr astudiaeth i lwfansau cynghorwyr (paragraff 3.1).

3. Ymrwymodd y Gweinidog i ddod ag adroddiad ar gynnydd y rhaglen Cynorthwyo Pobl gerbron ar gyfer y cyfarfod ar 13 Rhagfyr (paragraff 3.1).

4. Ymrwymodd y Gweinidog i ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Ffederasiwn Cymdeithasau Tai Cymru i annog awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i fanteisio'n llawn ar eu dyraniadau Grant Tai Cymdeithasol (paragraff 4.3).

5. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu data ariannol hanesyddol i'r Pwyllgor ar y Grant Tai Cymdeithasol (paragraff 4.3).

6. Wrth i'r Pwyllgor ystyried ei flaen-raglen waith strategol yn y cyfarfod ar 24 Ionawr dylid ymdrin â'r awgrym y gallai'r Pwyllgor gynnal adolygiad polisi o rôl grwpiau cymunedol yn y gwaith o adfywio cymunedau (paragraff 5.3).

7. Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor i ystyriaeth wrth dywys y rhaglen Cymunedau Cynaliadwy yn ei blaen (paragraff 5.4).

8. Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gymryd barn y Pwyllgor ar y cyfarwyddyd drafft ar strategaethau cymunedol i ystyriaeth, gan gynnwys pa gyrff y dylid ymgynghori â hwy (paragraff 6.4).

9. Ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu nodyn a fyddai'n nodi'r cyfyngiadau a bennir gan Adran 32 ('trefniadau amgen') Deddf Llywodraeth Leol 2000 (paragraff 7.3).

10. Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i ystyried barn y Pwyllgor ar y cynigion newydd yn ymdrin â rhoi Deddf Llywodraeth Leol 2000 ar waith (paragraff 7.4).

11. Ymrwymodd y Gweinidog i ysgrifennu at Janet Ryder, gan anfon copi o'r ohebiaeth at Aelodau eraill y Pwyllgor, yn nodi'r sefyllfa o ran y dreth gyngor a'r trethi busnes lleol ar adeiladau nad oedd yn bosibl byw ynddynt na'u defnyddio (paragraff 10.2).